



## Ysgol Pentreuchaf

### 134. Polisi Sefydlu Staff Newydd

#### Nod

Sicrhau fod pob aelod newydd yn cael ei anwytho'n effeithiol i drefn yr ysgol.

#### Canllawiau

1. Croesawu gweithiwr newydd a'i chyflwyno i'w chyd-weithwyr.
2. Rhoi cymorth gyda delio gyda materion personol - P45, trefniadau cyflog, yr angen i ymuno ag undeb (rhag ofn y bydd angen cefnogaeth yn y dyfodol) a.y.y.b.
3. Egluro termau ac amodau cyflogaeth, oriau gwaith, disgwiliadau y tu allan i oriau'r ysgol, lefel awdurdod. Egluro trefniadau rheoli ac adolygu perfformiad.
4. Negydu'r disgrifiad swydd. Trafod y swydd yn fanwl a chadarnhau a chytuno ar ba gyfarwyddyd, cefnogaeth a hyfforddiant sydd angen er mwyn galluogi'r unigolyn i weithio'n effeithiol.
5. Cyflwyno Llawlyfr Staff i sicrhau dealltwriaeth gyflawn o 'weledigaeth' a threfniadau dydd i ddydd yr ysgol.
6. Cyflwyno Cynlluniau Gwaith a Pholisiau'r ysgol, taflenni cynllunio'r athrawon ac esiamplau o gynllunio da i athrawon newydd.
7. Dangos yr adeilad, offer ac adnoddau gan sicrhau dealltwriaeth o'r angen am ddiogelwch ym mhob sefyllfa.
8. Sicrhau fod pob athrawes/athro newydd yn deall sut mae'r ffôn, ffacs, e-bost, llungopiwr, lamineiddiwr, beindar a.y.y.b. yn gweithio.
9. Egluro'r materion perthnasol ynglyn â iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf ac ymarfer tân. Sicrhau fod yr aelod newydd yn arwyddo ffurflen bwrpasol i ddangos eu bod wedi derbyn gwybodaethau angenrheidiol, gan gynnwys materion lechyd a Diogelwch.
10. Cytuno ar amserlen i adolygu cynefino, cynnydd, hyfforddiant ac unrhyw fater arall.

#### Casgliad

Sicrhau fod unrhyw aelod newydd o'r staff yn deall holl weithdrefnau'r ysgol, yn teimlo ei bod yn cael croeso ac y gall ofyn am unrhyw gymorth er budd yr unigolyn a'r ysgol gyfan.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**



## Hyfforddiant Anwythiaid Ysgol Pentreuchaf



Enw'r Aelod o Staff Newydd: ..... Swydd .....

Enw'r Aelod o Staff Anwytho:..... Swydd.....

- Eglurhâd o ble mae'r ystafell athrawon, toiled a'r dŵr yfed
- Eglurhâd o ble mae'r blwch Cymorth Cyntaf a pwy yw'r staff cymwysiedig
- Y drefn mewn argyfwng a beth yw eich rôl chi yn y gwacâd
- Y drefn yn yr ysgol am adrodd ar bryderon Iechyd a Diogelwch
- Mannau neu offer nad ydych yn cael mynd neu gyffwrdd
- Eglurhâd o'r trefniadau sydd mewn lle yn dilyn asesiadau risg ar y risgiau sylweddol yn yr adeilad
- Asesiad Risg yn cael ei wneud os yw'r person o dan 18 oed Ydi  Nac Ydi
- Unrhyw fater unigryw arall o iechyd a Diogelwch sydd yn benodol i'r ysgol  
.....  
.....  
.....

Rwyf wedi cael copi o Lawlyfr Staff Ysgol Pentreuchaf, wedi cael sesiwn anwythiad, ac yn deall y gofynion Iechyd a Diogelwch arnaf fel gweithiwr yn yr ysgol.

Arwyddwyd  
.....

Dyddiad .....

Arwyddwyd .....  
(Pennaeth)